

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod

Geraint Evans



Mae Geraint Evans yn byw yn Nhal-y-bont, Ceredigion. Bu'n ddarlithydd yn Adran Astudiaethau Gwybodaeth Prifysgol Aberystwyth ac am gyfnod yn Warden ar Neuadd Breswyl Pantycelyn. Mae'n debyg nad yw'r nofel hon yn deillio o brofiad personol!



Crynodeb:

Pan mae Dr Rodrigo Lewis o Batagonia yn cyrraedd Prifysgol Hergest, i dreulio blwyddyn yno fel darlithydd gwadd, mae'n llwyddo i greu argraff ar bawb. Mae nifer yn cael ei swyno ganddo, rhai yn ei weld fel bygythiad, ac eraill yn ei ddiystyru.

Wrth i'r flwyddyn academaidd fynd rhagddi mewn awyrgylch gaeedig y campws, cawn ddarganfod cymeriadau brith eraill, eu ffaeleddau, eu hynodweddau a'u huchelgeisiau. Ond mae Rodrigo yn chwa o awyr iach mewn byd o hierarchaeth a thraddodiadau.

Nofel gyfoes, yn llawn hiwmor a dychan, yn dangos bywyd blwyddyn gyfan y brifysgol trwy lygaid darlithydd ifanc, golygus.

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu *Hergest*?

Roeddwn i wastad eisiau ysgrifennu nofel wedi'i lleoli mewn prifysgol oherwydd fy ngyrfa fel darlithydd - gyda dos dda o ddychymyg!

Dywedwch ychydig am y stori rydych chi wedi'i chreu.

Daw Rodrigo Lewis o Batagonia i dreulio blwyddyn breswyl ym Mhrifysgol Hergest Canolbarth Cymru. O linach y rhai a hwyliodd i sefydlu'r Wladfa, yn fardd ac yn un o brif chwaraewyr rygbi ei wlad mae'n ymddangos yn ddewis perffaith. Ond yn sgil cyfres o helyntion gan gynnwys tarfu ar ymweliad brenhinol mae arhosiad Rodrigo yn y fantol. Ar fin gadael mewn cywilydd caiff waredigaeth o ddarganfod am gynlluniau Prifathro Hergest i ddatblygu parc gwyliau ar dir cyfagos a thrwy hynny beryglu holl fodolaeth y Brifysgol.

Beth ydych chi'n gobeithio y bydd darllenwyr yn ei gael o'r stori hon?

Tipyn o hwyl, dychan, a chipolwg ar addysg uwch yn y Gymru gyfoes.

Oedd unrhyw heriau arbennig wrth baratoi'r llyfr?

Gwneud yn siŵr nad oedd y cymeriadau'n rhy debyg i bobl go iawn!

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ddechrau ysgrifennu?

Creu mwy o ddewis i ddarllenwyr Cymraeg - nofelau ditectif yn gyntaf, a nawr hon.

O ble rydych chi'n cael ysbrydoliaeth?

Gweld hanesion yn y wasg am brofiadau unigolion a osodwyd mewn sefyllfa anodd. Mae realiti yn creu tensiwn rhwng y cymeriadau.

Pe baech chi'n disgrifio eich hun mewn tri gair, beth fyddai'r rhain?

Brwdfrydig, disgybledig, hwyliog.

y/Lolfa

www.ylolfa.com



Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru